# PWYLLGOR AMAETH A DATBLYGU GWLEDIG

**Dr Bryn Roberts, Cadeirydd, Menter Cymru Cyf.**

## Cyflwyniad

Diolch am eich gwahoddiad i fynychu'r Pwyllgor ac am y cyfle i gyflwyno fy safbwyntiau ar annog economi gwledig mwy amrywiol. O weld y nifer sy'n bresennol, byddaf yn cyfyngu fy adroddiad i orolwg bras ar Fenter Cymru a thrafodaeth ar gynnyrch cefnogi busnes penodol. Fy safbwyntiau i yw'r rhai a gyflwynir.

## Menter Cymru Cyf

Mae Menter Cymru Cyf yn cynrychioli buddiannau pob un o'r un ar ddeg Asiantaeth Fenter yng Nghymru. Dros y deuddeg mis diwethaf rydym wedi gweithredu polisi cynhwysol mewn perthynas â'n cyfarfodydd, fel bod gennym erbyn hyn bedwar aelod cysylltiol arall a chynrychiolaeth o'r Cynulliad Cenedlaethol. At ei gilydd, mae ein cyfarfodydd misol yn cynnwys y canlynol:

- Antur Menai
- Antur Dwyryd Llyn
- Antur Teifi
- Cyswllt Busnes Castell-nedd a Phort Talbot
- Cyswllt Busnes Abertawe
- Business in Focus
- Menter Clwydfro
- Coastal Enterprise
- Menter Sir Fflint Cyf
- Cyswllt Busnes Canolbarth Cymru
- Menter Casnewydd a Gwent
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (statws sylwedydd)
- Menter Busnes Sir Benfro
- Menter a Busnes (gwahoddwyd yn ddiweddar)
- Menter y Cymoedd
- Menter Wrecsam

## Rôl yr Asiantaethau Menter

Credaf y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor ystyried archwiliad ar botensial yr asiantaethau menter i gyflwyno ystod ehangach o gynnyrch a gwasanaethau i'r economi gwledig.

Mae nifer ohonom yn darparu ystod gymharol eang yn barod. Er enghraifft, cynorthwyodd Clwydfro i sefydlu 41 o fusnesau gwledig newydd y llynedd – canlyniad ardderchog o gofio'r nifer fechan o staff. Mae ganddi hefyd gynllun benthyg unigryw (benthyciwr gobaith olaf). Yn y blynyddoedd diwethaf mae Clwydfro wedi benthyg dros £1 miliwn i gwmnïau lleol gyda chyfradd llwyddiant o 92%. Mae gan Glwydfro enw ardderchog yn y rhanbarth a gallai wneud cymaint mwy petai nawdd yn cael ei ddarparu. Gall asiantaethau menter eraill hefyd ddarparu storïau o lwyddiant cyffelyb wrth helpu'r economi lleol.

Nodaf y sylwadau a wnaed gan eraill sydd wedi cyflwyno tystiolaeth ger eich bron. Mae Aelodau Menter Cymru yn awyddus i weithio'n agos mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sy'n darparu cynnyrch a gwasanaethau i'r gymuned wledig.

Credwn y gellid gwneud llawer i droi "ffermwyr" yn "entrepreneuriaid". O ran hyn, bach iawn o wahaniaeth a welwn ni rhwng busnes gweithgynhyrchu gwledig bychan a menter ffermio. Yn y bôn, mae'r un hanfodion busnes yn perthyn i'r ddau.

Fel y cyfryw, tra ein bod yn cael ein calonogi gan y syniad o Wasanaeth Blaengaredd Fferm i Gymru, rydym braidd yn bryderus y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno i sefydlu gwasanaeth busnes cyffredinol i ffermwyr y tu allan i'r rhwydwaith cefnogi busnes sydd eisoes wedi'i sefydlu. At hynny, mae'n bosib na fyddai'r "rheolau" sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn er lles y ffermwyr eu hunain. Dydw i ddim am sathru ar draed neb, ond efallai y bydd y dau senario canlynol yn darlunio fy mhryder:

**Senario Un**

> *Mae John Jones, `entrepreneur', â chanddo fusnes gwledig yn gwneud cadeiriau a byrddau pren, yn mynd i anawsterau ariannol. Mae ei fanc yn dechrau gwrthod sieciau, ac yn dechrau pryderu. Mae'r Banc yn awgrymu i John ei fod yn cynnal Arolwg Busnes sydd ar gael gan yr Asiantaeth Fenter leol. Mae John yn ffonio'r Asiantaeth ac mae Ymgynghorydd Busnes yn trefnu i ymweld ag ef y diwrnod canlynol. Mae'r arolwg yn cael ei gwblhau o fewn pedwar diwrnod, ac mae nifer o bwyntiau gweithredu yn cael eu hawgrymu a threfniadau'n cael eu gwneud i gael cyngor mwy arbenigol. Mae'r Banc yn barod iawn i barhau â'r sefyllfa gorddrafft hyd nes iddo gael y cyngor arbenigol.*

**Senario Dau**

> *Mae William Williams, ffermwr, yn gymydog i John Jones, ac mae'n mynd i anawsterau ariannol. Mae ei fanc yn dechrau gwrthod sieciau, ac yn dechrau pryderu. Mae'r Banc yn awgrymu i William ei fod yn cymryd Arolwg Busnes sydd ar gael gan Asiantaeth Fenter leol. Mae William yn ffonio ac fe'i cynghorir na all yr Asiantaeth Fenter ddelio ag ef (ffermwr ydyw - nid dyn busnes), ac maent yn ei gyfeirio i Gydlynydd Cynllun Menter a Gwella Fferm ADC, sy'n awgrymu ei fod yn gwneud cais am Arolwg Busnes drwy'r Gwasanaeth Blaengaredd Fferm. Mae William yn cytuno ac anfonir y gwaith papur angenrheidiol ato. Fe'i cynghorir i anfon y cais*

*wedi ei gwblhau at y swyddfa ranbarthol. Mae’n cael cyngor pellach y bydd y penderfyniad ynglyn â’r Arolwg Busnes yn cael ei gymryd gan "y tîm" o fewn 14 diwrnod* ***neu*** *pan fyddant yn fodlon eu bod wedi derbyn y manylion angenrheidiol i gyd. Mae William yn methu llenwi’r ffurflen yn gywir, sy’n golygu oedi pellach o bum diwrnod gwaith. Yn y diwedd, mae’r "tîm" yn cytuno i’r arolwg. Erbyn hyn mae’r Banc wedi colli pob ffydd yn William ac yn diddymu’r gorddrafft sydd ganddo neu’n cynyddu ei gostau banc.*

Mae’n ymddangos felly mai’r hyn sy’n cael ei gynnig yw gwasanaeth i ffermwyr sy’n fwy anodd mynd ato; sy’n gofyn am lenwi ffurflenni; tîm o bobl i gymryd penderfyniad; ac sy’n golygu cryn oedi. Byddai fformat mwy ymarferol yn golygu bod y ffermwr yn cael mynediad at yr ystod o wasanaethau cymorth busnes a hyfforddiant sydd ar gael o fewn yr asiantaethau menter a’u partneriaid cyflwyno. Nhw fyddai’n rhoi trefn ar hanfodion y busnes hwnnw, a hefyd yn darparu brîff clir ar gyngor mwy arbenigol mewn perthynas â gofynion penodol y ffermwr. Fel hyn, gall ffermwyr fynd at hyfforddiant busnes yn yr un ffordd â busnesau eraill. Wedi’r cyfan, unwaith y mae’r Arolwg Busnes wedi ei gwblhau fe fydd - yn ôl pob tebyg - yn pwysleisio anghenion hyfforddi’r ffermwr (ynghyd ag eraill yn y busnes) a allai olygu hyfforddiant gyda thaenlenni, paratoi cyllideb llif arian neu unrhyw beth arall.

Rydym felly yn cefnogi gwasanaethau busnes i ffermwyr sy’n cysylltu pobl o’r fath â chyngor a hyfforddiant busnes prif ffrwd. Nid ydym yn poeni pa Asiantaeth, Cyngor, Grðp Arwain neu asiantaeth gyflwyno arall sy’n darparu’r gwasanaeth hwn, ond teimlwn yn gryf na ddylai ffermwyr fod yn agored i broses sydd mor fiwrocrataidd.